Hunter Healthcare

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth



# Penodiadau aelodau'r Cyngor
## (lleyg a gweithwyr cofrestredig)

## Pecyn ymgeisydd

Dyddiad cau 12:00 hanner dydd ar 2 Hydref 2026

# Rhagair y Cadeirydd



## Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'r NMC

**Diolch am gymryd yr amser i ystyried y rôl hon fel aelod o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer mwy na 868,000 o nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn ymarferol, yn un o'r sefydliadau rheoleiddio mwyaf yn y byd.**

Mae'r NMC wedi mynd trwy gyfnod heriol. Mae adroddiadau amrywiol wedi ystyried bod yr NMC yn gweithredu islaw'r safon, ac i gywiro materion rydym wedi cychwyn ar gynllun troi uchelgeisiol iawn. Rydym yn benderfynol o adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd a dangos ein bod wedi ymrwymo'n llawn i'n prif nod: diogelu'r cyhoedd.

Rydym bellach flwyddyn i mewn i'n cynllun tair blynedd i droi'r NMC o gwmpas ac, er bod rhwystrau yn y ffordd eto i ddod, rydym yn dechrau gweld canlyniadau o'n plaid. Fel rhan o'r broses adnewyddu honno, rydym yn chwilio am bedwar unigolyn ymroddedig iawn i ymuno â Chyngor yr NMC.

Mae ein **Cynllun Busnes 2026/27**, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mai 2026, yn cyfeirio at lawer o'r gwaith sydd gennym i'w wneud o hyd, ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a sefydlwyd yn ein strategaeth 18 mis dros dro – **Adeiladu NMC newydd** – cyhoeddwyd ym mis Medi 2025.

Mae ein taith yn heriol. Mae'n rhaid i ni gynnal momentwm yn ein gweithgareddau "busnes fel arfer", tra ar yr un pryd yn gweithredu llu o newidiadau a gwelliannau i'r NMC. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi mewn TG, cyfleusterau a phrosesau newydd yn ogystal â newid diwylliant yr NMC yn sylfaenol.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol: rydym yn cydnabod y bydd y daith tuag at reoleiddio cyflymach, tecach a mwy effeithiol sy'n cefnogi ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth o ansawdd uchel yn gymhleth, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau sy'n amlwg yn y systemau iechyd a gofal ehangach ar draws pedair gwlad y DU.



Mae'n dilyn bod yn rhaid i'n haelodaeth o'r Cyngor fod o'r ansawdd uchaf, i oruchwylio'r newidiadau cymhleth mewn rheoleiddio proffesiynol ac i sicrhau bod gweithrediaeth yr NMC yn darparu'r safon gywir o wasanaethau er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Yn unol â hynny, rydym yn chwilio am bedwar aelod o'r Cyngor i ymuno â ni ar y daith hon i newid a gwella'r NMC:

- **Dau aelod cofrestredig:** dau weithiwr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr ar hyn o bryd sydd â phrofiad helaeth o weithredu ar lefel y Bwrdd, ac sy'n gallu bod yn broffesiynol gyda phrofiad, gwybodaeth, sgiliau ac annibyniaeth gofynnol i'w galluogi i gyflawni'r dyletswyddau yn effeithiol. Hoffem i o leiaf un o'r aelodau hyn fod yn fydwraig.

- **Dau aelod lleyg:** dau leygwr sydd â phrofi-ad helaeth o weithredu ar lefel y Bwrdd gan arwain at newid trawsnewidiol ac sy'n gallu dangos cymysgedd o arbe-nigedd llywodraethu, gweledigaeth strat-egol, a chymwyseddau arbenigol ar gyfer ymgymryd â rôl Ymddiriedolwr. Mae sgili-au dymunol yn arbenigedd cyllid a chyfrei-thiol/profiad rheoleiddiol lefel uwch.

Dyma amser cyffrous a heriol i fod yn ymuno â'n Cyngor. Byddwch yn ymuno â Chyngor sy'n unedig yn ei ymrwymiad i wella sut rydym yn diogelu'r cyhoedd, yn cynnal safonau yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth ac, yn wir, i wella'r ffordd y mae'r NMC yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.

**Ron Barclay Smith**
Cadeirydd
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Amdanom ni

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

(NMC) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn. Rydym hefyd yn Elusen sydd wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Al-ban â'r Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) (SC038362).

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth ac rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob nyrs gofrestredig, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi elwa o addysg effeithiol, ac yn bodloni safonau ymddygiad ac ymarfer clir, er budd y cyhoedd.

Mae gennym ddyletswydd i ymchwilio i bryderon ac i gymryd camau i amddiffyn y cyhoedd yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni roi terfyn neu gyfyngu ar hawl nyrs neu fydwraig broffesiynol i ymarfer.

**Nod cyffredinol y Cyngor yw diogelu'r cyhoedd drwy:**

- **Ddiogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd**
- **Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn**
- **Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiynau hynny**



Ein cyfrifoldebau rheoleiddiol yw i:

- **Gynnal y Gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- Asesu **sgiliau iaith a chymhwysedd** ceisiadau tramor
- Gosod y gofynion **ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer mynediad i'n Cofrestr neu anodiad arni
- Llunio arfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau**, gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes trwy **Ailddilysu** bob tair blynedd
- **Ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau** pan fo pryderon difrifol yn cael eu codi ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 867,900 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl hanfodol i'w chwarae wrth amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

Rydym yn gwneud hyn trwy **osod a hyrwyddo safonau addysgol a phroffesiynol uchel** ar gyfer pob nyrs a bydwraig gofrestredig yn awr ac yn y dyfodol yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ar ein Cofrestr yn bod-loni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir**, a thrwy hynny yn ddiogelu'r cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd **i ymchwilio i bryderon** ac i gymryd camau i **ddiogelu'r cyhoedd** yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni roi terfyn neu gyfyngu ar hawl nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

**Rydym yn adeiladu NMC newydd** gydag **Uniondeb, Tegwch, Parch, Cydraddoldeb ac Effeithiolrwydd** wrth ei graidd.

Rydym yn benderfynol o **wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio**. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

# Building a new NMC

Yn 2025 fe wnaethom gyhoeddi **Cynllun Trawsnewid Diwylliant NMC**, rhaglen tair blynedd gynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau newid sylfaenol yn ein diwylliant sefydliadol.

**Mae eisiau adeiladu diwylliant sy'n gadarnhaol, grymusol a chynhwysol arnom i'r holl staff, waeth beth fo'u cefndir neu nodweddion – gyda phawb yn teimlo eu bod yn perthyn.**

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol, rydym wedi adnewyddu ein gweledigaeth, ein gorchwyl a'n **gwerthoedd** yn ddiweddar i lywio sut rydym yn ailadeiladu'r NMC.

## Gweledigaeth NMC

Addysg ac ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – a reolir gan yr NMC – sefydliad addas i'r dyfodol, gyda thegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn.

## Gorchwyl NMC

Bod yn rheoleiddiwr cryf ac annibynnol sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn ysbrydoli hyder yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth – trwy osod a chynnal safonau proffesiynol uchel.

- Rydym yn cyflawni ein gorchwyl trwy ddiwylliant cadarnhaol a chynhwysol sy'n galluogi ein pobl i ffynnu a gwella'n barhaus sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol
- Bydd cyflawni ein gorchwyl yn sicrhau ein bod yn rhan effeithiol o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

# Gwerthoedd NMC



Rydym yn adeiladu NMC newydd ag:

- **Uniondeb**
- **Tegwch**
- **Parch**
- **Cydraddoldeb**
- **Effeithiolrwydd**

## Sicrhau ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol

Adolygu a gwella ein hoffer rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd yn well a chynorthwyo gweithwyr proffesiynol

## Gwella Addasrwydd i Ymarfer

Gwella tegwch, prydlondeb ac ansawdd penderfyniadau wrth ganolbwyntio ar ddiogelu a chydraddoldeb

## Trawsnewid diwylliant

Creu diwylliant teg a chadarnhaol i ddod yn rheoleiddiwr a chyflogwr effeithiol, diogel a dibynadwy

## Cryfhau arweinyddiaeth

Adeiladu NMC newydd gydag atebolrwydd cryfach ac arweinyddiaeth rymusol, unedig, seiliedig ar werthoedd

## Moderneiddio'r NMC

Diweddaru ein technoleg, systemau, deddfwriaeth a dysgu i fod yn fwy ystwyth ac effeithlon

# Ein blwyddyn yn gryno Ebrill 2025-Mawrth 2026

## Addasrwydd i Ymarfer




Erbyn diwedd 2025-26, roeddem yn datrys tua 74% o achosion Addasrwydd i Ymarfer o fewn 15 mis (yn erbyn targed o 80%).

## Education quality assurance

**100fed**
**SEFYDLIAD ADDYSG CYMERADWY**

Fe wnaethom gynnal ein cynadleddau Sicrhau Ansawdd Addysg cyntaf i rannu dysgu a hyrwyddo cysondeb rhaglenni.

Fe wnaethom groesawu ein 100fed sefydliad addysg cymeradwy.

## Map ffordd ymarfer proffesiynol

### Cod ac Ailddilysu

- Fe wnaethom lansio ein hadolygiadau o'r broses Cod ac Ailddilysu.
- Fe wnaethom gasglu tystiolaeth, gan gynnwys arolwg gyda bron i 14,000 o ymatebion.

### Ymarfer uwch

- Fe wnaethom gyflwyno egwyddorion newydd ar gyfer ymarfer uwch.
- Mae 68 o sefydliadau yn cymryd rhan fel mabwysiadwyr cynnar.

### Dysgu ymarfer

- Yn 2025, fe wnaethom gynnal 25 o ddigwyddiadau ymgysylltu a fynychwyd gan 1,250 o bobl.
- Fe wnaethom baratoi i ymgynghori ar newidiadau i gryfhau'r broses ddysgu ymarfer. Lan-siwyd yr ymgynghoriad ym mis Ebrill 2026.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Dechreuon ni ymgysylltu cyn lansio ein hegwyddorion gwrth-hiliaeth ar gyfer addysg ac ymarfer bydwreigiaeth a nyrsio i fynd i'r afael ag an-ghydraddoldebau iechyd a gwahaniaethu ar frys, yn enwedig ond nid yn unig yn nhermau'r Nodweddion Gwarchodedig a ddiffinnir yn y gyfraith.

Erbyn diwedd 2025-26, roedd 25% o aelodau panel lleyg Addasrwydd i Ymarfer a 24% o aelodau panel gweithwyr cofrestredig Addasrwydd i Ymarfer o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig.

**83.3%** Roedd 83.3% o restrau byrion NMC gradd 6 ac uwch yn cynnwys o leiaf un ymgeisydd Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig.

# Ein blwyddyn yn gryno Ebrill 2025-Mawrth 2026

## Diogelu

O fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2026, nododd ein Hwb Diogelu 1,575 o achosion Addasrwydd i Ymarfer gyda phryderon diogelu posibl.

**1,575**

Pryderon posibl a nodwyd

## Bydwreigiaeth

- Fe wnaethom lansio ein *Cynllun Gweithredu Bydwreigiaeth*, i sicrhau gofal ac addysg mamolaeth ddiogel, teg a pherson-ganolog.
- Fe wnaethom ddatblygu dangosfwrdd data bydwreigiaeth – gan ddefnyddio ystadegau Addasrwydd i Ymarfer – i gefnogi dysgu o dueddiadau Addasrwydd i Ymarfer.
- Fe wnaethom fapio'r cwricwla ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth yn erbyn themâu allweddol safonau hyfedredd.

## Trawsnewid diwylliant

Fe wnaethom gwblhau Blwyddyn Un o'n *Cynllun Trawsnewid Diwylliant*, gan gyflawni holl ymrwymiadau Blwyddyn Un.

Rydym yn cymryd dull dim goddefgarwch tuag at fwlio, ac erbyn diwedd 2025-26 roeddwn wedi gwahardd 17 o bobl dros y flwyddyn flaenorol am fwlio ac aflonyddu ar eraill neu am fod yn hiliol.

Fe wnaethom hyfforddi 12 llysgennad codi llais ar draws yr NMC.

Fe wnaethom barhau â'n gwasanaeth gwarcheidwad Codi Llais.

Fe wnaethom gyflwyno ein Gwerthoedd I-FREE:

Uniondeb

Tegwch

Parch

Cydraddoldeb

Effeithiolrwydd

## Arweinyddiaeth

- Erbyn diwedd 2025-26, roedd gennym dîm gweithredol newydd ac unedig.
- Cymerodd ein Cadeirydd newydd, Ron Barclay-Smith ei rôl yn Ebrill 2025.
- Cymerodd aelodau'r cyngor ran mewn cyfleoedd datblygu gan gynnwys hyfforddiant EDI, gweithdai risg, hyfforddiant Codi Pryderon a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd.
- Penodwyd ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd, Paul Rees MBE, i'r swydd sylweddol ym mis Gorffennaf 2025.
- Cymerodd 95% o reolwyr ran mewn hyfforddiant gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd a mynychodd 86% sesiynau ar ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ymgymerodd aelodau o'n Bwrdd Gweithredol, dirprwy gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cynorthwyol â hyfforddiant helaeth ar arweinyddiaeth gref ac effeithiol.

# Y Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethol yr NMC. Mae'n gosod y cyfeiriad strategol, yn gwneud penderfyniadau allweddol, ac yn dal y Weithrediaeth i gyfrif.

Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen ac maen nhw ar y cyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr NMC yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda ac yn cyflawni budd cyhoeddus trwy wel-liant parhaus yn ei swyddogaethau rheoleiddio.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg aelod: chwe lleygwr a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein Cofrestr, pob un wedi'i benodi gan y Cyfrin Gyngor.

Disgwylir i'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor ddangos ein gwerthoedd a chynnal **Cod Ymddygiad y Cyngor** yn seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('egwyddorion Nolan').

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloywder, gan gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithio a'i aelodaeth bresennol ar gael **yma**.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol i'r Cyngor. Mae'n cael ei gynorthwyo gan dîm Gweithredol sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae rhagor o wybodaeth am ein tîm Gweithredol ar gael **yma**.

## Newidiadau'r dyfodol i'r Cyngor

Mae'r pedair llywodraeth wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'n deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y Cyngor yn trosglwyddo o'r aelodaeth gwbl Anweithredol bresennol i gorff llywodraethol sy'n cynnwys aelodau Anweithredol a Gweithredol (model bwrdd unedol). Yn seiliedig ar yr amserlen bresennol, mae'r newid hwn yn debygol o ddigwydd o fewn y tair blynedd nesaf.



## Statws elusennol

Fel elusen gofrestredig, mae'n rhaid i ni geisio sicrhau bod ein holl waith yn cyflawni budd i'r cyhoedd. Fel ymddiriedolwyr yr elusen, mae aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud hyn.

Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried canllawiau Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban wrth wneud penderfyniadau a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion adrodd statudol, gan gynnwys adrodd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n cynlluniau diweddar ar gael yn y canlynol:

- **Ein gwerthoedd a'n hymddygiadau**
- **Cynllun Busnes 2026-27**
- **Cynllun Trawsnewid Diwylliant 2025-28**
- **Hawd ei Ddeall 2025-26**
- **Ymgynghoriad ar God newydd a phroses Ailddilysu**

# Ein cofrestr mewn rhifau

### Ar 31 Mawrth 2026, roedd:

**799,001** o Nyrsys

**48,545** o Fydwragedd

**6,151** Cofrestriad deuol

**14,238** o GYmdeithion nyrsio

# Beth mae aelod o'r Cyngor yn ei wneud?

Fel aelod o'r Cyngor mae'n rhaid i chi fod yn ymrwymedig i ddiogelu'r cyhoedd ac i'n diben statudol.

Mae'n rhaid i chi gael y dewrder i godi llais a herio, gan weithio ar y cyd â chydaelodau a chyfathrebu'n hyderus o fewn a thu allan i'r sefydliad. Rôl aelodau'r Cyngor yw:

**Darparu cyfeiriad strategol i'r NMC:**

- Cymryd cyfrifoldeb am strategaeth gorfforaethol, cynlluniau busnes a chyllidebau, a datblygu'r fframwaith ar gyfer adolygu polisi, perfformiad gweithredol a gwella ein swyddogaethau rheoleiddiol yn barhaus.
- Goruchwylio datblygiad polisi a gwneud penderfyniadau polisi mawr.

**Sicrhau ac adolygu effeithiolrwydd yr NMC wrth gyflawni ei bwrpas statudol:**

- Sicrhau bod ffocws y sefydliad ar bwrpas craidd diogelu'r cyhoedd.
- Gwerthuso effeithiolrwydd y Cyngor wrth gyflawni ei ddiben statudol.

**Darparu goruchwyliaeth o weithrediadau'r NMC, gan sicrhau eu bod yn cydgyfeirio â chyfeiriad strategol**

- Dal y tîm Gweithredol i gyfrif am reoli gweithrediadau o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol.
- Dal y Weithrediaeth i gyfrif am sicrhau bod gweithrediadau NMC yn cael eu trefnu mewn ffyrdd sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau craidd i'r effaith orau, a bod hyn yn cael ei adolygu wrth i amgylchiadau newid.



**Monitro perthnasoedd allanol yr NMC, i sicrhau bod hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael ei gynnal:**

- Sicrhau bod gan yr NMC fesurau ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac â sefydliadau perthnasol eraill ac asiantaethau'r llywodraeth ym mhedair gwlad y DU.

- Pan fo'n briodol, gweithredu yn bersonol i gefnogi a hyrwyddo buddiannau'r NMC yn allanol.

**Cyflawni'r holl gyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr elusen ar gyfer yr NMC:**

- Sicrhau bod yr NMC yn gweithredu bob amser o fewn fframwaith cyfraith elusennol ac yn cyflawni ei ddibenion elusennol.

- Cymryd cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau priodol, gan gynnwys rheoli eiddo; cyflogi staff; iechyd a diogelwch; a chydraddoldeb ac amrywiaeth.



“

**Ymunais i â’r NMC fel Aelod Gweithiwr Cofrestredig o’r Cyngor ym mis Hydref 2025. Mae’n bwysig i weithwyr cofrestredig chwarae rôl hanfodol wrth gyfrannu at a dylanwadu ar y ffordd y mae’r NMC yn cyflawni ei swyddogaethau corfforaethol. Mae’r Cyngor, ynghyd â’r NMC yn ei gyfanrwydd, yn cynnig y cyfle i wella diogelwch y cyhoedd trwy ei waith ar, er enghraifft, Ailddilysu, Y Cod, safonau proffesiynol ac addysgol.**

**Mae’n gyfle anhygoel i fod yn rhan o daith yr NMC o dan ei arweinyddiaeth newydd. Mae gwaith yr NMC yn ymwneud â materion yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban. Felly mae hwn yn gyfle gwych i wella eich dysgu a’ch datblygiad ar draws y pedair gwlad ac i gysylltu â chydweithwyr uwch iawn fel y Prif Swyddogion Nyrsio a Prif Swyddogion Bydwreigiaeth. Rwy’n argymell y rôl yn fawr.**

– Hussein Khatib, aelod o’r Cyngor Cofrestredig



“

**Mae gan yr NMC rôl hanfodol bwysig. Mae'n rheoleiddio bron i filiwn o nyrsys a bydwragedd. Felly, mae'n effeithio ar fywydau pawb yn y DU oherwydd, ar ryw adeg, rydym i gyd yn derbyn gofal gan nyrsys neu fydwragedd. Mae cwmpas rheoleiddio'r NMC yn enfawr. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer y proffesiynau – y safonau sylfaenol ymarfer ac ymddygiad, a hefyd y gofynion addysg a hyfforddiant.**

**Rydym yn cymeradwyo'r cyrff addysg sy'n darparu'r hyfforddiant hwnnw. Rydym yn cofrestru nyrsys a bydwragedd ac yn sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu eu sgiliau. Rydym hefyd yn delio â'r nifer gymharol fach, ond pwysig, o achosion Addasrwydd i Ymarfer a gyfeirir atom. Felly, mae rôl reoleiddiol yr NMC yn bwysig yn genedlaethol. Rydym wedi cael rhai heriau gwirioneddol yn ddiweddar, rhai mewnol a rhai wedi'u hachosi gan newidiadau yn ein cymdeithas yn gyffredinol.**

**Rydym yn chwilio am bedwar aelod newydd o'r Cyngor i'n helpu i wynebu'r heriau hynny. Byddech chi'n ymuno â sefydliad gyda thîm sy'n barod ac yn awyddus i gofleidio newid trawsnewidiol. Mae angen i ni wella'n radical sut rydym yn rheoleiddio ac yn trawsnewid ein diwylliant. Mae'n her fawr ond, yn fy mhrofiad i, yn un hynod werth chweil.**

– Anna Walker, Is-gadeirydd ac aelod o'r Cyngor Lleyg

# Y rolau

**Rydym yn chwilio am bedwar aelod o'r Cyngor:**

- Dau weithiwr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr ar hyn o bryd sydd â phrofiad helaeth o weithredu ar lefel y Bwrdd, ac â'r profiad, yr wybodaeth, y sgiliau a'r annibyniaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Hoffem i o leiaf un o'r aelodau hyn fod yn fydwraig.

- Dau leygwr sydd â phrofiad helaeth o weithredu ar lefel y Bwrdd, gan arwain at newid trawsnewidiol a dangos cymysgedd o arbenigedd llywodraethiant, gweledigaeth strategol a chymwyseddau arbenigol ar gyfer ymgymryd â rôl Ymddiriedolwr. Mae sgiliau dymunol yn cynnwys arbenigedd cyllid a chyfreithiol/profiad rheoleiddio lefel uwch.

Gall ymgeiswyr ar gyfer y naill rôl neu'r llall fyw neu weithio yn unrhyw un o Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ei aelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol y mae'n eu rheoleiddio. Rydym yn gwybod y bydd cael lleisiau, safbwyntiau, gwybodaeth a mewnweledIad gwahanol yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Nid yw aelodaeth bresennol y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth cofrestr yr NMC mewn per-thynas ag ethnigrwydd. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir o bob cefndir, yn enwedig y rhai o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Pe byddai angen unrhyw help neu addasiadau arnoch i gyflawni'r rôl, rydym yn hapus i ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ei angen arnoch.

Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, bydd y Panel Dewis yn cymryd dull gweithredu cadarnhaol. Mae hyn yn golygu, pan fo'r Panel Dewis yn fodlon bod dau neu fwy o ymgeiswyr o'r un teilyngdod ar gyfer yr un rôl, gan ystyried aelodaeth bresennol y Cyngor, gall benderfynu ar-gymell ymgeisydd sydd â nodwedd warchodedig.



## Cymhwysedd

Bydd angen i chi wirio eich bod yn gymwys i gael eich penodi ac nad ydych wedi'ch datgymhwyso. Mae'r seiliau dros ddatgymhwyso rhag penodi i'r Cyngor i'w gweld yn y **ffurflen gais**.

Aelod Gweithiwr Cofrestredig o'r Cyngor: Mae'n rhaid fod gennych gofrestriad cyfredol â'r NMC heb unrhyw gyfyngiad ar eich ymarfer a bod yn barod i gynnal eich cofrestriad wrth wasanaethu ar y Cyngor, gan gynnwys ailddilysu yn ôl yr angen.

Os bydd eich cofrestriad â'r NMC yn dod i ben ar unrhyw adeg yn ystod eich tymor yn y swydd, ni fyddwch bellach yn gallu parhau fel aelod o'r Cyngor. Wrth ystyried a ddylid gwneud cais am y rôl hon, bydd angen i chi ymrwymo i gynnal eich cofrestriad trwy gydol tymor llawn eich penodiad.

Aelod Lleyg o'r Cyngor: Mae'n rhaid i chi beidio â bod, nac erioed wedi bod, yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig ac mae'n rhaid i chi allu cadarnhau nad oes gennych gymwysterau a fyddai'n eich galluogi i wneud cais i fod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig.

## Gwrthdaro buddiannau

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu bosibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i'r NMC. Darllenwch y canllawiau **yma**.

## Asesiad o gymwyseddau

Byddwn yn defnyddio'r cymwyseddau canlynol i asesu ymgeiswyr.

Bydd y rhain yn eich helpu i benderfynu a oes gennych y rhinweddau cywir i ymuno â'n Cyn-gor.

Bydd angen i chi esbonio yn eich datganiad ategol sut mae eich arbenigedd, profiad, gwybodaeth a sgiliau yn cyd-fynd â phob un o'r **cymwyseddau** .

Byddwn yn asesu eich cais yn erbyn y cymwyseddau ar bob cam o'r broses ddewis.

Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl gymwyseddau perthnasol. Sylwch y gallwch ddarparu tystiolaeth o'r cymwyseddau hyn o unrhyw agwedd ar eich bywyd, profi-adau a gweithgareddau, nid dim ond trwy eich rolau proffesiynol neu waith.

**Cymhwysedd dymunol ar gyfer un rôl leyg yn unig:** arbenigedd cyllid a chyfreithiol/profiad rheoileiddiol lefel uwch.

## Cymwyseddau hanfodol ar gyfer y ddwy rôl:

1. Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, ddiogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio proffesiynol.

2. Gwerthfawrogiad clir o'r rôl anweithredol, a sut y dylid dal swyddogion gweithredol i gyfrif trwy her adeiladol.

3. Y gallu i gyfrannu at sefydliad ar lefel strategol, gan ddangos sgiliau dadansoddol a barn gadarn.

4. Y gallu i ddeall a chyfrannu at y materion sefydliadol a busnes y mae'r Cyngor yn delio â nhw.

5. Y gallu i weithio'n llwyddiannus fel rhan o dîm, parchu a gwrando ar eraill, gan ennill parch cydweithwyr, a chyfrannu'n adeiladol at brosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd.

6. Dealltwriaeth o rôl ymddiriedolwr elusen, a gallu i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

7. Ymrwymiad personol at lywodraethiant da a chynnal egwyddorion cydnabyddedig bywyd cyhoeddus.



# Amser a chydnabyddiaeth

## Ymrwymiad amser

**Rydym yn rhagweld ymrwymiad amser o dri diwrnod y mis o leiaf. Mae hyn yn cael ei adolygu.**

Rydym am fod yn onest ac yn realistig y gallai fod angen mwy o amser wrth i chi setlo i'r rôl, ac yn dibynnu ar y materion sy'n ein hwynebu. Mae'r ymrwymiad amser hwn yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, ac ystod eang o weithgareddau eraill. Os byddwch yn gwneud cais, bydd disgwyl i chi gadarnhau eich bod yn gallu ac yn barod i gyflawni'r ymrwymiad amser hwn.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd a seminarau'r Cyngor yn Llundain neu ar-lein, ond gellir cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau hefyd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru, a rhannau eraill o Loegr. Mae amserlen cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2026-2027 o 1 Hydref 2026 ar gael **yma**.

Mae'n bwysig eich bod ar gael i fynychu cyfarfodydd a seminarau'r Cyngor.

## Cydnabyddiaeth

Y lwfans y cytunwyd arno ar hyn o bryd ar gyfer aelodau'r Cyngor yw £15,166 y flwyddyn.

Mae lwfansau yn ddarostyngedig i ddidyniadau cymwys ar gyfer treth incwm PAYE a chyfraniadau yswiriant gwladol.

Byddwch hefyd yn cael eich ad-dalu am dreuliau teithio rhesymol a chostau allan o boced a achoswyd ar fusnes NMC, yn unol â pholisi teithio a threuliau'r Cyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety i aelodau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer aelodau'r Cyngor sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.



**Am ba mor hir y byddaf yn cael fy mhenodi?**

Bydd y tymor cychwynnol am gyfnod o dair blynedd a hanner.

Fel y soniwyd, mae cynigion diwygio rheoleiddiol disgwyliedig y llywodraeth yn golygu bod y Cyngor presennol i fod i drosglwyddo i fodel bwrdd unedol, yn fwyaf tebygol o fewn y tair blynedd nesaf. Efallai y bydd angen rhai newidiadau i aelodaeth y Cyngor o ganlyniad a gall eich tymor cychwynnol newid. Yn amodol ar ddiwygio rheoleiddiol a pherfformiad boddhaol, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich ailbenodi ar gyfer tymor ychwanegol.

**A fyddaf yn derbyn hyfforddiant a datblygiad?**

Mae pawb a benodir o'r newydd i'r Cyngor yn derbyn cyflwyniad cynhwysfawr i waith y Cyngor a'r NMC, yn ogystal â'r cyfleoedd parhaol ar gyfer datblygiad ar sail unigol ac ar y cyd.



# Sut i ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12:00 hanner dydd ar 2 Hydref 2026**.

Bydda angen i chi gwblhau a chyflwyno:

- **Datganiad** ar y rhesymau pam rydych chi'n addas ar gyfer y rôl (dim mwy na dwy dudalen). Gwnewch yn si  r eich bod chi'n dweud sut rydych chi'n bodloni'r cymwyseddau a amlinellir ar dudalen 18.
- Eich **CV** (dim mwy na thair tudalen).
- Y **ffurflen gais** wedi'i chwblhau: rydym yn eich annog yn gryf i lenwi adran cydraddoldeb ac amrywiaeth y ffurflen os gwelwch yn dda.

Dylid anfon pob cais at: **applications@hunter-healthcare.com**. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod. Mae'n ddrwg gennym ond ni fyddwn yn gallu ystyried ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau yngl  n â'r uchod neu os hoffech ragor o wybodaeth am y rôl a'r broses ddewis, cysylltwch â Rhiannon Smith ar 07860 773860 neu **rsmith@Hunter-Healthcare.com**.

## Proses ddewis

Rydym wedi ymrwymo i brosesau dewis sy'n hygyrch, teg, tryloyw, yn seiliedig ar deilyngdod ac yn rhydd rhag rhagfarn a gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor wedi penodi Panel Dewis i gynnal y broses. Bydd y broses ddewis yn cael ei harwain gan dystiolaeth ac ym mhob cam byddwch yn cael eich asesu yn erbyn y cymwyseddau a nodir ar dudalen 18.

Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad ar gyfer penodiad i'r Cyfrin Gyngor.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am gynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch a all fod yn hyder yn ein proses ddewis, yn seiliedig ar wybodaeth wedi'i hanonymeiddio am ein proses.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn cwrdd â chostau teithio a llety rhesymol. Byddwn yn darparu unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety i ymgeiswyr sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.



## Aelodau'r Panel Dewis

Aelodau'r Panel Dewis yw:

- **Ron Barclay-Smith**
  Cadeirydd y Cyngor (Lleyg)
- **Anna Walker**
  Dirprwy Gadeirydd (Lleyg)
- **Rhiannon Beaumont-Wood** (Gweithiwr Cofrestredig)
- **Hussein Khatib**
  (Gweithiwr Cofrestredig)
- **Moi Ali**
  (Aelod annibynnol o'r panel)

Os hoffech sgwrs anffurfiol â chydweithiwr o'r Cyngor cysylltwch â Jacqeuline Maunder **Jacqueline.Maunder@nmc-uk.org**.

## Crynodeb o ddyddiadau allweddol

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ceisiadau | 2 Hydref 2026 |
| Rhestr hir | 14 Hydref 2026 |
| Rhestr fer | 9 Tachwedd 2026 |
| Cyfweliadau: | 7, 8 a 9 Rhagfyr 2026 |
| Penodiad/cynefino | o 1 Chwefror 2027 |

# Amserlen

| Dyddiadau allweddol | Cam |
|---|---|
| **4 Medi 2026** | **Ceisiadau yn agor** |
| **2 Hydref 2026** | **Ceisiadau yn cau**<br><br>Bydd ceisiadau'n ddilys dim ond os ydym yn derbyn pob un o'r canlynol:<br>• Eich datganiad o addasrwydd ar gyfer y rôl<br>• Eich CV<br>• **Ffurflen gais** wedi'i chwblhau: rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i lenwi a dychwelyd ein ffurflen monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Gwnewch yn si  r eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn 12.00 hanner dydd, gan na allwn ystyried ceisiadau hwyr.<br><br>Ar yr adeg hon, byddwn yn gwirio pob cais dilys:<br>• I gadarnhau cymhwysedd;<br>• I gadarnhau nad yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) a chyfraith elusennau; ac<br>• I adnabod unrhyw **wrthdaro buddiannau** posibl y gallai fod angen eu trafod. |
| **2-6 Hydref 2026** | **Cam didoli cychwynnol**<br><br>Bydd Hunter Healthcare yn cynnal asesiad cychwynnol o'r holl geisiadau yn erbyn y cymwyseddau . |
| **14 Hydref 2026** | **Creu rhestr hir**<br><br>Mae'r Panel Dewis yn adolygu'r holl geisiadau a'r asesiadau rhagarweiniol gan yr Ymgynghorwyr Chwilio yn erbyn y cymwyseddau .<br><br>Yna mae'r Panel Dewis yn penderfynu pa ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad rhagarweiniol â'r Ymgynghorwyr Chwilio. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cam hwn cyn gynted ag y gallwn. |
| **15-30 Hydref 2026** | **Cam cyfweliadau cychwynnol**<br><br>Mae'r Ymgynghorwyr Chwilio yn cynnal cyfweliadau rhagarweiniol â'r holl ymgeiswyr ar y rhestr hir yn erbyn y cymwyseddau . Bydd cyfweliadau rhagarweiniol yn cael eu cynnal yn rhithwir. |
| **9 Tachwedd 2026** | Mae'r Panel Dewis yn adolygu canlyniad yr holl gyfweliadau rhagarweiniol yn erbyn y cymwyseddau. Yna mae'r Panel Dewis yn penderfynu ar y rhestr fer o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad terfynol. |

| Dyddiadau allweddol | Cam |
|---|---|
| **10-27 Tachwedd 2026** | **Gwiriadau cyn cyfweliad**<br><br>Byddwn yn:<br>● Cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar eich hanes proffesiynol a phersonol (gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol); ac<br>● Yn cymryd geirda ysgrifenedig gan eich canolwyr enwebedig.<br><br>**Camau terfynol**<br><br>Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, cewch gyfle am drafodaeth unigol â'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac, ar wahân, ag aelod o'r Cyngor. Bydd rhestr safonol o bynciau yn cael ei thrafod.<br><br>Sylwch nad yw'r trafodaethau yn rhan o'r broses ddewis. Fe'ch gwahoddir hefyd i fynychu cyfweliad terfynol. |
| **7, 8 a 9 Rhagfyr** | **Cyfweliad terfynol**<br><br>Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yn y cnawd yn Llundain.<br><br>Bydd cyfweliad y Panel Dewis yn para tua 60 munud a bydd yn canolbwyntio ar gwestiynau yn erbyn y cymwyseddau. Gofynnir i chi roi cyflwyniad ar bwnc a ddewisir gan y Panel a rhoddir rhybudd ymlaen llaw o hyn.<br><br>Yn dilyn cyfweliadau, bydd y Panel Dewis yn penderfynu pwy ddylai gael ei argymell i'r Cyfrin Gyngor i'w benodi. |
| **Ionawr 2027** | **Penderfyniad y Cyfrin Gyngor ar benodiad.**<br><br>Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y Cyfrin Gyngor yn ysgrifennu atoch yn cynnig y penodiad. Byddwn yn cynghori ymgeiswyr aflwyddiannus cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi adborth os gofynnir amdano. |
| **1 Chwefror 2027** | **Penodiad** ar gyfer un aelod lleyg ac un aelod gweithiwr cofrestredig.<br><br>**Gweithgareddau cynefino yn dechrau i'r holl aelodau.** |
| **1 Ebrill 2027** | **Penodiad** ar gyfer un aelod lleyg ac un aelod gweithiwr cofrestredig (gyda'r cynefino yn dechrau o 1 Chwefror 2027) |

## Cwynion

Rydym wedi ymrwymo i brosesau a gweithdrefnau sy'n deg, yn dryloyw ac yn rhydd rhag gwahaniaethu. Bydd cwynion am unrhyw agwedd ar y broses benodi ar gyfer rolau aelodau'r Cyngor yn cael eu monitro, eu cofnodi a'u trin yn brydlon.

Os ydych chi'n anhapus ag unrhyw agwedd ar y broses benodi, byddwn yn ceisio datrys eich pryderon yn gynnar ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i hysbysu penderfyniadau'r Cyfrin Gyngor.

Os oes gennych g yn, gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, drwy e-bost at Gyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethiant ac Ysgrifennydd i'r Cyngor **jacqueline.maunder@nmc-uk.org**.

Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith gydag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith.

Yn dilyn ymchwiliad gan y Pennaeth Llywodraethiant, os nad ydych yn fodlon o hyd, gallwch ofyn i'r Pennaeth Llywodraethiant gyfeirio'ch cwyn at Gadeirydd y Panel Dewis i'w hystyried ac ymateb.

Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith gydag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb ar ôl i chi fynd trwy'r llwybrau hyn, gallwch leisio eich pryder gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn **enquiries@pco.gov.uk**.

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

@nmcuk
@nmcnews
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer
Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig ytng Nghymru a Lloegr
(1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

## HYGYRCHEDD:

**Mae'r pecyn briffio hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais, megis, braille neu brint mawr. Cysylltwch â Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com.**

Llawr 2, Berkshire House
168-173 High Holborn,
Llundain WC1V 7AA

T: 020 7935 4570
E: enquiries@hunter-healthcare.com